# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Minutes of a meeting of the Pwyllgor Archwilio Partneriaethau held in Siambr y Cyngor, Ty Russell, Rhyl on Dydd Iau, 14 Mai 2015 at 9.30 am.

## PRESENT

Councillors Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Meirick Davies, Pat Jones, Merfyn Parry a/ac Bill Tasker.

Roedd y Cynghorwyr Stuart Davies, Rhys Hughes a Huw Jones yn bresennol fel arsylwyr.

## ALSO PRESENT

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (SP), Swyddog AHNE (HS); Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwald a Threftadaeth (HR), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG), Cydlynydd Archwilio (RE) a'r Swyddog Gweinyddol (CIW).

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cynghorydd R. J. Davies wedi ymddiswyddo fel Aelod o'r Pwyllgor a bod y Cynghorydd J.A. Davies wedi ei benodi'n Is-gadeirydd y Cyngor. Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio (SC) y bydd y Pwyllgor yn gofyn am enwebiadau ar gyfer y swyddi gwag.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Apologies for absence were received from Councillors Dewi Owens.

## 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Esboniodd y Cydlynydd Archwilio bod y newidiadau i Aelodaeth y Pwyllgor, sef penodi Is-Gadeirydd, yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD –*** *bod penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor i gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.*

## 3 DATGAN CYSYLLTIAD

*Datganodd y Cynghorydd T.M. Parry gysylltiad personol ag eitemau 7 ac 8 ar yr agenda fel cynrychiolydd y Cyngor Sir ar yr AHNE.*

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 19 Mawrth 2014.

Materion yn codi:-

3. Gwasanaethau Llawdriniaethau Aciwt yn Ysbyty Glan Clwyd:-Cadarnhaodd y Cadeirydd fod llythyr wedi ei anfon, fel y cytunwyd, at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn gofyn am eglurder ynglŷn â'r mathau o lawdriniaethau a fyddai'n cael eu cynnal yn Ysbyty Glan Clwyd yn y dyfodol.  Eglurodd y Cydlynydd Archwilio bod copi o'r llythyr a'r ymateb wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth gefndirol ar gyfer y cyfarfod.

5. Cydlynu Ffrydiau Cyllid Cymunedol: - Cyfeiriodd y Cynghorydd M.Ll. Davies at Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr, ac esboniodd fod yr is-orsaf y gwneir cyfeiriad ati mewn gwirionedd ym mhlwyf Cefn Meiriadog ger Llanelwy.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, i dderbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

**6 YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED, Y SECTOR GWIRFODDOL A'R TRYDYDD SECTOR YN SIR DDINBYCH**

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Bartneriaeth Arfordirol Sir Ddinbych, o Bartneriaeth Arfordirol y Rhyl ac o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i'r cyfarfod i roi cyflwyniad byr ynglŷn â'u sefydliadau a'u swyddogaeth wrth hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad cymunedol, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector yn y sir.  Roedd copïau o sleidiau'r cyflwyniad yn amlinellu gwaith y tri chorff a'r grwpiau sydd wedi elwa o ganlyniad i'w gwaith wedi eu cyhoeddi fel rhan o bapurau'r Pwyllgor.  Cafwyd trosolwg o'r gwaith y mae Partneriaeth Arfordirol Sir Ddinbych a Phartneriaeth Arfordirol y Rhyl yn ei wneud i reoli a gweinyddu'r arian cymunedol sydd ar gael gan Gronfa Gymunedol RWE Innogy UK Ltd. (arian Ffermydd Gwynt Gogledd Hoyle a Gwastadeddau'r Rhyl), gan gynnwys cyhoeddusrwydd ynglŷn â'r gronfa, y broses o ymgeisio a dyfarnu, y sefydliadau sydd wedi elwa o'r gronfa a'r mathau o brosiectau a ariennir.

Aeth y Cynrychiolwyr ati, mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, i:-

- ddweud eu bod yn croesawu ceisiadau gan bob math o brosiectau cymunedol ac ati a bod pob cais yn cael ei ystyried ar ei deilyngdod ei hun yn ôl meini prawf penodol;
- amlinellu aelodaeth Partneriaeth Arfordirol Sir Ddinbych a Phartneriaeth Arfordirol y Rhyl a dweud, yn amodol ar wirio cyfansoddiad y sefydliad a thrafod y mater gydag aelodaeth Partneriaeth Arfordirol y Rhyl, y byddai'r swyddogion yn ysgrifennu'n ffurfiol at y Cyngor yn gofyn i'r Cyngor benodi Cynghorydd Sir i wasanaethu ar Bartneriaeth Arfordirol y Rhyl;
- ddweud fod Partneriaeth Arfordirol y Rhyl wedi dyfarnu arian i Asiantaeth Datblygu Cymunedol Sir Ddinbych i'w chefnogi hyd nes y byddai'n cau ym mis Mawrth 2015, a'u bod o fis Ebrill 2015 wedi sicrhau cytundeb gyda Chanolfan Wellington ar Ffordd Wellington i alluogi lleoli'r offer a arferai fod wedi'i leoli yn yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol yn Stryd Bodfor i fod yn hygyrch i'r cyhoedd eu

defnyddio yng Nghanolfan Wellington. Er bob trigolion bellach yn dod yn ymwybodol fod yr offer wedi symud lleoliad, roedd Partneriaeth Arfordirol y Rhyl hefyd yn mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i'r lleoliad newydd;
- gadarnhau eu bod wedi cysylltu â Chanolfan y Foryd mewn perthynas â chanfod cartref i hen offer yr Asiantaeth Datblygu Cymunedol ac ati, ond na fu hynny'n llwyddiannus, a dyna pam eu bod yn awr wedi eu lleoli yng Nghanolfan Wellington. Mynegodd Partneriaeth Arfordirol y Rhyl eu diolch i Ganolfan Wellington am eu cymorth.

Amlinellodd Prif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych beth yw swyddogaeth ei sefydliad. Tynnodd sylw at yr ystod eang o sefydliadau sydd yn rhan o'r trydydd sector yn y Sir, yn amrywio o sefydliadau mawr sector cyhoeddus megis cymdeithasau tai i grwpiau bach lleol megis clybiau ar ôl ysgol annibynnol ac ati. Yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin yw mai'r hyn sydd yn eu hysgogi yw anghenion y gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

Dywedwyd wrth yr Aelodau:-

- hyd at ddiwedd mis Mawrth 2015 fod gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych 50 aelod o staff (rhan-amser a llawn amser) ac o 1 Ebrill, oherwydd toriadau yn y gyllideb, roedd nifer y staff wedi gostwng i 15 (neu i 7 cyfwerth ag amser llawn). O blith y 7, câi 4 eu hariannu ar gyfer prosiectau penodol - un ohonynt gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hyn yn golygu mai dim ond 3 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n weddill i ymdrin â'r holl waith arall, gan gynnwys gweinyddu a chefnogi grwpiau cymunedol i ganfod a gwneud ceisiadau am gyllid;
- roedd swyddog rhan-amser arall wedi ei ariannu'n rhannol gan y Cyngor at ddibenion prosiectau wedi eu hariannu gan ofal cymdeithasol. Roedd y swyddog hwn a'r swyddog a ariennir gan y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd;
- Ar hyn o bryd roedd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn y broses o hysbysebu a recriwtio am swyddog datblygu a llywodraethu a fyddai'n gweithio'n benodol gyda grwpiau ar draws y Sir i roi cyngor a chymorth gyda cheisiadau grant. Edrychir ar y mathau hyn o rolau fel swyddi i ddod ag 'adenillion ar fuddsoddiad' gan fod y cyllid cymunedol sy'n cael ei dynnu i mewn i'r Sir gan swyddogion o'r fath yn llawer mwy na chyflog ac argostau cysylltiedig y gweithwyr;
- Oherwydd toriadau ariannol ar gyfer 2015/16 roedd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn gweithredu ar hyn o bryd â diffyg o £45 mil yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Roedd hyn wedi ei gymhlethu ymhellach yn sgil colli'r grant Rhyddhad Ardrethi yn ôl Disgresiwn o tua £1 mil gan y Cyngor Sir;
- Nid yw Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth h.y. rhoi cymorth i rai sy'n gadael gofal. Fodd bynnag, maent yn cefnogi sefydliadau ac asiantaethau sy'n darparu'r gwasanaethau hynny e.e. Gweithredu Dros Blant;

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol er nad oedd gan y Cyngor gyllid i ddarparu swyddi swyddogion dynodedig i gefnogi gwaith sefydliadau megis Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Partneriaeth Arfordirol Sir Ddinbych a Phartneriaeth Arfordirol y Rhyl, eu bod eisoes yn darparu cymorth i sefydliadau ar ffurf data perthnasol i gefnogi ceisiadau am gyllid ac ati. Yn ogystal,

daethpwyd at y Cyngor i weld os gallai’r Cyngor ryddhau amser swyddogion i wirio ceisiadau cyn eu cyflwyno. Roedd y cais hwn o dan ystyriaeth.

Anogwyd aelodau i amlygu bodolaeth cronfa newydd Fferm Wynt Gwynt y Môr i grwpiau cymunedol o fewn eu hardaloedd ac amlygu manteision posibl y gronfa a fydd yn cael ei lansio yn swyddogol yn yr haf. Bydd y gronfa hon, a fydd yn cael ei rheoli a'i gweinyddu gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy, gyda chyfranogiad Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn werth oddeutu £700 mil bob blwyddyn. Mae disgwyl i’r meini prawf ymgeisio gael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf, ond dylai mapiau sy'n dangos y cymunedau cymwys fod ar gael o fewn y ddeufis nesaf. Efallai y bydd rhai sefydliadau’n dymuno ymgeisio am arian o'r gronfa hon i gyflogi cydlynydd ariannu cymunedol neu swydd o’r fath. Awgrymodd yr Aelodau y gellid ariannu swyddi debyg fel rhan o'r Cynlluniau Tref ac Ardal mewn rhai ardaloedd.

Diolchodd y Cadeirydd i’r cynrychiolwyr o’r sector gwirfoddol am eu presenoldeb ac am ateb cwestiynau'r aelodau, gan ddweud ei bod yn gobeithio y gallai’r Cyngor a'r trydydd sector gydweithio â’i gilydd yn effeithiol yn y dyfodol er budd trigolion y sir. Felly:

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor yn*

*(a) Derbyn cyflwyniadau Partneriaeth Arfordirol Sir Ddinbych, Partneriaeth Arfordirol y Rhyl a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, ac yn*

*(b) eu gwahodd yn ôl i gyfarfod arall yn y dyfodol i drafod gweithio mewn partneriaeth rhwng y Cyngor a sefydliadau cymunedol, gwirfoddol a'r trydydd sector ar draws y Sir.*

## 7 CYD BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY ADRODDIAD CYNNYDD 2014-15

Roedd copi o adroddiad gan Swyddog yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Wrth gyflwyno’r adroddiad pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig mai adroddiad cynnydd oedd hwn ar waith yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, oddi fewn ac oddi allan i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac ar waith y Cydbwyllgor ers cyflwyno’r adroddiad cychwynnol yn y Pwyllgor ddeuddeg mis yn ôl.

Manylodd yr Aelod Arweiniol a Swyddog yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar aelodaeth Cydbwyllgor yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a Phartneriaeth yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, a fydd yn cynnal eu cyfarfod cyntaf drannoeth. Buont hefyd yn amlinellu’r gwaith sy’n mynd rhagddo gyda’r Gwasanaeth Cefn Gwlad mewn ymdrech i chwalu'r rhwystrau rhwng trigolion y dref a thrigolion y wlad, a chyda canolfannau twristiaeth arbenigol megis y Canolfan Ragoriaeth Beicio Gogledd Cymru. Cadarnhawyd y dylai’r mentrau iechyd a lles sydd yn mynd rhagddynt gefnogi agendâu ataliol y Cyngor a phartneriaid eraill ac arwain yn y tymor hir at boblogaeth iachach.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Cynghorwyr dywedodd yr Aelod Arweiniol a Swyddog yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol bod:-

- arian wedi ei neilltuo i helpu i ariannu prosiectau a mentrau i ddarparu cludiant ar gyfer trigolion o ardaloedd mwyaf difreintiedig y Sir i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol er mwyn iddynt elwa ar y gwasanaethau a'r amwynderau sydd ar gael yno;
- nid yw'r gwasanaeth bws i Lyn Brennig wedi bod yn rhedeg ers peth amser;

Eglurwyd bod cyfraniad pob awdurdod lleol tuag at gyllideb yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi eu gosod gan ddefnyddio fformiwla y cytunwyd arni. Dros y pum mlynedd nesaf bydd y gyllideb, trwy drafodaeth, wedi ei rhannu'n deg rhwng y tri Awdurdod (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Roedd y Cynghorydd Stuart Davies o'r farn, hyd nes bod pob awdurdod yn talu yr un faint â'i gilydd, na ddylai fod gan bob Awdurdod yr un nifer o aelodau ar y Cydbwyllgor. Tra bo gan Aelodau'r Bartneriaeth ddyletswydd i weithredu'n bennaf er budd y Bartneriaeth a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, maent wedi eu penodi fel aelodau o'r Bartneriaeth oherwydd eu gwybodaeth o'r ardal a'u diddordeb yng ngwaith y sefydliad.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben, cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnal un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ardal Llangollen i'r dyfodol i alluogi aelodau lleol a Swyddog yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol i ddangos mannau o ddiddordeb i'r aelodau etholedig. Roedd anogaeth hefyd ar yr Aelodau i fynychu'r nifer o ddigwyddiadau sydd wedi eu trefnu yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau uchod, yn cefnogi'r cynnydd a wnaed o ran Llywodraethiant yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, a'r prosiectau a gyflawnwyd yn ystod y deuddeg mis cyntaf.*

## 8 ADOLYGIAD O DIRWEDDAU DYNODEDIG YNG NGHYMRU

Roedd copi o'r adroddiad gan Reolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth Sir Ddinbych wedi'u dosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Wrth gyflwyno'r adroddiad pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig ei fod wedi gofyn i'r broses graffu ystyried yr alwad hon am dystiolaeth oherwydd fod arno eisiau barn y Cyngor ar yr argymhellion a nodir gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros Adnoddau Naturiol yn dilyn Adolygiad Cam 1 o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru. Tynnodd sylw'r Aelodau yn benodol at y paragraff yn llythyr y Gweinidog at Gadeirydd yr Adolygiad, yn cyfeirio at y nifer presennol o Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru. Roedd yr Aelod Arweiniol yn bryderus yn benodol y gallai'r adolygiad hwn o bosibl arwain at sefyllfa lle byddai'r Cyngor yn colli ei bwerau cynllunio drwy'r drws cefn. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â barn yr Aelod Arweiniol ynglŷn â hyn a gwnaethant gais i'r llythyr drafft, a welir yn Atodiad 2, gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r pwyntiau canlynol

- a bod y pwynt ynglŷn â’r posibilrwydd o golli pwerau cynllunio yn ymddangos yn gynnar yn y llythyr, cyn ei gyflwyno ger bron y Cabinet am gymeradwyaeth.

- Caiff datganiad y Gweinidog ynglŷn â dyfodol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fel Awdurdodau Cynllunio a gostyngiad yn nifer yr awdurdodau cynllunio yng Nghymru ei ddehongli fel ffordd anuniongyrchol o gymryd y cyfrifoldeb dros gynllunio oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych. Tra bo cefnogaeth i system gynllunio fwy gwydn, sy’n meddu ar sgiliau arbenigol, mae'r Pwyllgor yn credu mai’r lleoliad gorau ar gyfer y system yw’r awdurdod lleol;
- Roedd newid yr enw o 'Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol' i 'Tirweddau Cenedlaethol' yn ddiangen a byddai’n arwain at ddryswch. Yn fwy na hynny, nid yw’r enw newydd yn mynegi gwerthoedd disgrifiadol nac emosiynol y tirweddau. Hefyd, ar y llwyfan Prydeinig, ni fyddai dynodiad mwyach yn cydorwedd gyda'r teulu o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cwestiynwyd hefyd y costau a fyddai’n gysylltiedig â newid yr enw a’r isadeiledd sy'n gysylltiedig â’r newid – yn benodol arwyddion a'r neges y byddai hynny yn ei anfon yn ystod adeg o gynni;
- Teimlai'r Aelodau fod enw presennol y dynodiad, y drefn lywodraethu a strwythurau gweithredol eraill ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn fwy na digonol ac y dylid cadw pethau fel y maent;
- dylid gohirio unrhyw gynigion o ran gwneud newidiadau i’r dynodiad hyd nes bod map newydd Llywodraeth Leol Cymru yn wybyddus a bod y cynigion yn ymwneud â strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru i’r dyfodol yn gliriach.

Er bod manteision posibl o gael un 'dynodiad' ar gyfer ardaloedd o harddwch naturiol, yn enwedig os caiff yr arian sydd ar gael ar hyn o bryd i'r Parciau Cenedlaethol ei ryddhau ar gyfer pob ardal o 'Dirwedd Cenedlaethol’ roedd yr Aelodau’n gryf o'r farn nad rŵan yw’r amser priodol i weithredu newidiadau o'r fath. Mae angen cytuno yn gyntaf ar fap llywodraeth leol yng Nghymru i’r dyfodol a'r strwythurau i’w gefnogi. Yn dilyn trafodaeth fanwl:-

***PENDERFYNODD*** *– yn amodol ar gynnwys y pwyntiau uchod yn yr ymateb drafft, i argymell cymeradwyo ymateb swyddogol y Cyngor Sir Ddinbych i Gam 2 yr Alwad am Dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru.*

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o ‘ffurflen ar gyfer cynigion Aelodau’ wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet wedi’i chynnwys yn Atodiad 3, ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a’r cynnydd a wnaed o ran eu gweithrediad wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i fersiwn ddrafft y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a’r ychwanegiadau canlynol:-

25 Mehefin 2015:- Cytunodd yr Aelodau bod yr Aelodau Arweiniol perthnasol yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod er mwyn ystyried tair eitem o fusnes sydd wedi eu rhestru ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

30 Gorffennaf 2015:- Cyfeiriodd y Cynghorydd J. Butterfield at Adroddiad Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Sir Ddinbych, a gofynnodd am gynnwys adroddiad arbennig ar Faes Chwarae Antur y Rhyl. Awgrymodd y Cynghorydd Butterfield y dylid darparu manylion mewn perthynas â:-

- cyfranogiad y Cyngor i'r prosiect.
- y cyfrifoldeb am redeg, rheoli a chyllido'r cyfleuster.
- nifer y staff cyflogedig a gwirfoddol sy'n cymryd rhan, a chadarnhad bod gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi'u cynnal.

Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cydlynydd Archwilio i fynd ar drywydd y materion a godwyd a'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr Aelodau ynghylch Maes Chwarae Antur y Rhyl.

Roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi cyfarfod ar 2 Ebrill. Mewn ymateb i'r ffurflen gais gan swyddog cytunodd y Pwyllgor i gynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol, ar gyfer mis Hydref 2015, eitem i ystyried adroddiad ar Gynllun Lleol Cefnogi Pobl Sir Ddinbych 2016/19, Atodiad 1 yr adroddiad.

Yn ystod cyfarfod mis Mawrth 2015 penderfynodd y Pwyllgor drefnu cyfarfod arbennig gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bellach wedi cadarnhau eu bod ar gael i fynychu cyfarfod ar 17 Medi 2015.

Roedd y Pwyllgor wedi gwahodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i fynychu cyfarfod mis Gorffennaf i drafod effaith ac effeithiolrwydd cyfraniad cynyddol y Cyngor at gyllideb flynyddol yr Awdurdod Tân ac Achub. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo y byddai'n amhriodol iddynt fynychu ym mis Gorffennaf gan eu bod yn ymgynghori ar eu Cynllun Lleihau Risg yn ystod yr Hydref. O ganlyniad, mae'r eitem fusnes honno wedi ei haildrefnu dros dro ar gyfer mis Tachwedd 2015.

Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 12 Mai 2015 gofynnwyd i'r Pwyllgorau Archwilio benodi/ail-benodi Aelodau i wasanaethu ar y Grwpiau Herio Gwasanaethau. Yn Atodiad 5 mae rhestr gyfredol o gynrychiolwyr y Pwyllgor.

Nodwyd bod enwau rhai o'r gwasanaethau wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Eglurodd aelodau o'r Grŵp Llafur oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol eu haelodaeth ar y Pwyllgor na fyddent yn gallu cyflwyno enwebiadau. Cytunwyd ar yr enwebiadau canlynol:-

- Y Cynghorydd T.M. Parry:-Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol.
- Y Cynghorydd M.Ll. Davies:- Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd.
- Y Cynghorydd J.R. Bartley:- Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr y pwyllgor.

Daeth y Cyfarfod i ben am 12.10pm.